# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 5

CYDWEITHIO GAN BRIF GYNGHORAU

## PENNOD 3

SEFYDLU CYD-BWYLLGORAU CORFFOREDIG PAN FO CAIS WEDI EI WNEUD

*Ceisiadau i sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig*

### 70 Cais gan brif gynghorau i sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig

(1) Caiff unrhyw ddau brif gyngor neu ragor wneud cais ar y cyd ("cais cyd-bwyllgor") i Weinidogion Cymru, yn gofyn iddynt ystyried gwneud rheoliadau o dan adran 72 i sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig er mwyn arfer—

- (a) swyddogaeth i'r cynghorau hynny;
- (b) y swyddogaeth llesiant economaidd,

mewn perthynas â phrif ardaloedd y cynghorau hynny.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru, ar ôl cael cais cyd-bwyllgor, yn penderfynu peidio â gwneud rheoliadau o dan adran 72, rhaid iddynt hysbysu'r prif gynghorau a wnaeth y cais.

### 71 Ymgynghori cyn gwneud cais cyd-bwyllgor

Cyn gwneud cais cyd-bwyllgor rhaid i'r prif gynghorau ymgynghori ag—

- (a) pobl leol yn ardaloedd y prif gynghorau,
- (b) pob un o'r cynghorau ar gyfer cymunedau yn ardaloedd y prif gynghorau,

(c) yr awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol y mae unrhyw ran ohono yn ardal unrhyw un neu ragor o'r prif gynghorau,

(d) y bwrdd neu'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer ardaloedd y prif gynghorau,

(e) pob undeb llafur a gydnabyddir (o fewn yr ystyr a roddir i "recognised" yn Neddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (p. 52)) gan un neu ragor o'r prif gynghorau, ac

(f) unrhyw bersonau eraill y mae'r prif gynghorau yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.